Prosiect Gwyrdd
PROJECT GREEN

Annwyl Randdeiliad,

Mae Prosiect Gwyrdd yn falch o gadarnhau y bydd Viridor a Veolia yn cael eu gwahodd i gyflwyno Tendr Terfynol ar gyfer contract gwastraff Prosiect Gwyrdd.

Roedd y Prosiect i fod i ddad-ddethol un cwmni yn ystod y cam hwn o'r broses gaffael, gan symud o dri chwmni i ddau, ond tynnodd Covanta Energy Ltd yn ôl o'r broses gaffael ddiwedd Hydref, ddau fis cyn penderfynu ar y rhestr fer.

Dywedodd y Cyngh Mark Stephens, Cadeirydd y Cydbwyllgor sy'n rheoli'r Prosiect: "Mae'r ddau gynnig, sydd wedi bodloni gofynion hanfodol y gwerthusiad, yn gryf ac yn gredadwy. Mae'r broses yn gystadleuol dros ben ac wedi'i chynllunio i ddarparu datrysiad cynaliadwy i'r gwastraff sydd yn weddill, ar ôl i ailgylchu cyn prosesu a chompostio sylweddol gael ei wneud drwy gynlluniau awdurdod lleol."

Aeth ymlaen: 'Mae awdurdodau lleol yn gwneud buddsoddiad sylweddol mewn casgliadau ailgylchu a chompostio ac addysgu sut i leihau ac ailgylchu gwastraff. Mae'n bwysig dros ben bod y cyhoedd yn defnyddio'r cyfleusterau ailgylchu a chompostio a ddarperir, fel y gellir cyfeirio'r gwahanol fathau o wastraff i'w hailddefnyddio ar ymyl y ffordd. Mae partneriaethau awdurdodau lleol hefyd yn cynnal proses gaffael ar wahân ar gyfer gwastraff organig, gyda gwastraff bwyd a gardd yn cael ei gyfeirio i'w drin ar wahân, drwy naill ai gompostio caeëdig neu Dreulio Anaerobig.

'Mae'r neges gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Genedlaethol yn glir, tirlenwi ydy'r dewis olaf. Mae pob un o'r partneriaid wedi ymrwymo i gyflawni'r targedau ailgylchu a chompostio rhwymol gyfreithiol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

'O ran y gwastraff na ellir ei ailgylchu na'i gompostio'n ddichonadwy, mae'r farchnad wedi cyflwyno systemau troi gwastraff yn ynni hynod effeithlon a modern. Mae'r cyfleusterau hyn yn gynaliadwy, yn cael eu rheoli'n llym ac yn gyffredin mewn llawer o ardaloedd yn Ewrop a Sgandinafia, gan ddefnyddio technoleg ddibynadwy, ddiogel sydd wedi hen ennill ei phlwyf.'

Bydd y Prosiect yn cynnal digwyddiadau cyhoeddus yn y Flwyddyn Newydd fel y gall y cyhoedd barhau i ddysgu mwy am y Prosiect. Bydd datganiad i'r wasg yn cael ei anfon i'r cyfryngau i hysbysebu'r digwyddiadau hyn, bydd posteri'n cael eu codi mewn cymunedau cyfagos, a bydd hysbysebion yn ymddangos ar wefannau awdurdodau lleol a www.prosiectgwyrdd.co.uk.

Yn dilyn cytundeb y Cydbwyllgor, bydd y Prosiect bellach yn anfon y Cais am Ddogfennau Tendr Terfynol i'r ddau gwmni ac yn cynnal rhagor o drafodaethau yn y Flwyddyn Newydd. Disgwylir i enw'r Cynigydd a Ffefrir ar gyfer y Prosiect gael ei gyhoeddi yn hydref 2012.

Yn Gywir,

Prosiect Gwyrdd

Caerphilly County Borough Council / Caerffili
Cardiff / Caerdydd
Cyngor monmouthshire County Council / sir fynwy
Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd
Vale of Glamorgan / Bro Morgannwg
Llywodraeth Cymru / Welsh Assembly Government